

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar y 10^{fed} o Dachwedd 2020 am 5.00pm

Yn bresennol yn y cyfarfod:

Pwyllgor Ieuenctid: Phoenix (9.75), Rory (), Habeba (9.5), Libby (8),

Staff: Suzanne (8), Tom (9.76), Graham (8.5), Sara (8.5)

Ymddiheuriadau: Amy, Lilly, Dylan, Matt, Jazz

Materion a Drafodwyd

Eitem Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	Croeso a chyflwyniadau / Mewngofnodi ac allangofnodi fel uchod mewn cromfachau.	
2	Diweddariad APCAP: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd Graham bod adolygiad helaeth wedi'i wneud o waith gwirfoddoli yn Sir Benfro – ymgynghorwyd ag aelodau o'r staff, pobl ifainc, aelodau a sefydliadau.Mae gweithgareddau'r Parc wedi ail ddechrau yn dilyn dod â'r toriad tân lleol y llywodraeth i ben.	
3	Diweddariad Ieuenctid: <ul style="list-style-type: none">Hysbysodd Suzanne y grŵp am yr Ymgyrch Gwneud Eich Marc sy'n gyfle i bobl ifainc 11-18 oed i gael dweud eu dweud ar faterion polisi sy'n effeithio arnynt. Bydd y materion hyn wedyn yn cael eu trafod gan aelodau'r Senedd Ieuenctid. Mae hyn yn gyfle gwych i bobl ifainc ddylanwadu ar y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau.	https://www.ukparliamentweek.org/en/make-your-mark/
4	Ymgyrch Outright <ul style="list-style-type: none">Rhoddodd Phoenix a Habeba drosolwg o'r gwaith a wnaed ganddynt ar y thema Newid Hinsawdd. Roedd y tîm yn gweithio ar wneud ffilm animeiddio sy'n canolbwyntio ar hawliau plant a chysylltiadau hynny â'r newid yn yr hinsawdd. Roedd y tîm yn sylweddoli bod hawl pob un person ifanc yn effeithio ar newid hinsawdd, a barnent na fyddent	

	<p>wedi bod yn ymwybodol o hynny oni bai eu bod wedi trafod pob un hawl yn unigol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodwyd adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd gan y tîm hyd yn hyn: <ul style="list-style-type: none"> - Jazz heb allu symud ymlaen oherwydd ymrwymadau ysgol am y pythefnos nesaf. - Libby yn symud ymlaen yn dda. Wedi defnyddio rhai o'r technegau a ddysgwyd i ddatblygu ei delweddau. - Rory wedi rhannu map y gellid ei ddefnyddio fel cefndir i'r ffilm. • Cafwyd trafodaeth ar ledaenu'r ffilm a thargedu cynulleidfaoedd. Cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter. Gwefan APCAP, canolfannau croeso, radio a'r cyfryngau, pwyllgor aelodau'r APCAP, ASau, ACau, rhannu a hyrwyddo gydag ysgolion, cynulliad ieuenctid. Cwestiynau allweddol: Marchnad darged – i bwy? Beth yw diben y neges? Galwad i weithredu – beth mae pobl yn mynd i wneud mewn ymateb. Y grŵp i ddylunio briff a datblygu ymgyrch i gyd-fynd â'r fideo. Trafododd yr aelodau y syniad o gael tudalen Facebook. • Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch cynhadledd COP 26 i'w chynnal fis Tachwedd nesaf. Rhannodd Tom tudalen we Unicef a enwir 'Takeover Day' lle mae plant a phobl ifainc yn cymryd drosodd ac yn troi'r byd yn las mewn cefnogaeth i hawliau plant. Trafodwyd cyfleoedd am gael tirnodau yn Sir Benfro i droi'n las. Yr aelodau i anfon e-bost at sefydliadau yn gofyn iddynt am eu cefnogaeth gyda'r syniad hwn. Dylunio baner. Cyfle i'r aelodau greu e-gerdyn drwy ddefnyddio'r templed ar dudalen Unicef, a gellir wedyn anfon y cardiau hyn at lywydd COP26. 	<p>Map Rory i'w ddefnyddio fel dolen gyswllt rhwng clipiau eraill / hefyd fel lle i animeiddio rhai effeithiau perthnasol newid hinsawdd byd-eang</p> <p>Y Pwyllgor Ieuenctid i benderfynu ar y camau nesaf</p> <p>https://www.ukcop26.org/</p> <p>https://www.unicef.org/world-childrens-day/highlights-2019</p> <p>https://e-activist.com/page/67022/survey/1</p> <p>Y Pwyllgor Ieuenctid i benderfynu ar eu rhan yn COP26.</p>
--	---	--

	Digwyddiad ar-lein ar yr 20fed o Dachwedd os yw unrhyw aelod yn dymuno cymryd rhan. Anawsterau yn ystod diwrnod ysgol.	
6	Nadolig ar-lein – Sesiwn Hwyl i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.	
7	Unrhyw fater arall – Amherthnasol	
	Dyddiad y cyfarfodydd nesaf: 24 Tachwedd / 8 Rhagfyr	
	Daeth y cyfarfod i ben am 18:45	